Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# NEGESEUON AM YMARFER - SEWSCB 2/2017

Mae'r Adolygiad Ymarfer Plant hanesyddol hwn yn ymwneud â theulu gyda 4 o blant a oedd yn destun esgeulustod, cam-drin corfforol a cham-drin rhywiol. Mae'r adolygiad yn ymdrin â chyfnod o 3 blynedd. Roedd y plant rhwng 4 ac 11 oed ar ddechrau'r cyfnod adolygu. Mae gan un plentyn anabledd dysgu, ac roedd angen cymorth addysgol ychwanegol ar un arall. Roeddent yn byw gyda'u rhieni gyda help rhianta sylweddol gan fodryb ar ochr y tad a'i gŵr. Roedd angen cymorth ychwanegol ar y rhieni ac roedd ganddynt anawsterau dysgu. Isod, mae rhai pwyntiau dysgu allweddol o'r adolygiad. Gellir cael mynediad at yr adroddiad llawn gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: [Adolygiad Ymarfer Plant Hanesyddol - SEWSCB 2 / 2017 (gwentsafeguarding.org.uk)]

## Anableddau dysgu, anawsterau ac anghenion

Mae cofnodion yn cyfeirio at y rhieni fel rhai sydd ag 'anghenion arbennig'/'anawsterau dysgu', ond ni chynhaliwyd asesiad ffurfiol o'u rhianta ac ni wnaed penderfyniad clir o beth oedd eu 'hanawsterau dysgu' neu eu 'hanghenion arbennig' mewn gwirionedd.

Gall anawsterau dysgu, anableddau ac 'anghenion arbennig' i gyd gael effaith ar allu unigolyn i fod yn rhiant, a dylid teilwra'r cymorth a gynigir iddynt wedi hynny i'w hanghenion dysgu unigol. Defnyddir y termau yn gyfnewidiol yn aml ond mae angen i ni fod yn glir beth maen nhw'n ei olygu yng nghyd-destun rhieni yn rhianta a dylai'r cymorth a ddarperir felly adlewyrchu hyn.



## Asesiadau galluedd rhianta

Mae angen asesu galluedd, gallu a pharodrwydd rhieni i ymgysylltu, a rhaid i'r rhwydweithiau cymorth o amgylch y teulu fod yn sylfaen ar gyfer gwneud asesiadau risg a llunio cynlluniau gofal. Heb ddealltwriaeth glir o'r cynlluniau hyn, efallai bydd ymyriadau yn y dyfodol yn cael eu gohirio, eu cyfyngu a'u camddehongli neu fod yn afrealistig.

Rhaid i asesiadau rhianta:

- deall a dogfennu galluedd y rhieni i newid, eu gallu a'u parodrwydd i ymgysylltu
- bod ag ystyr i'r rhieni a'r plant
- rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fod yn chwilfrydig ac ystyried y posibilrwydd o rieni'n esgus cydymffurfio
- ystyried cyfyngiadau rhieni
- deall a dadansoddi dynameg y teulu

Yna gellir darparu gwasanaethau ac ymyriadau **priodol**.

## Gwneud penderfyniadau

Rhoddwyd y cyfrifoldeb am geisio ymyriadau meddygol ar gyfer y plant ar y rhieni a arweiniodd at beidio â chymryd camau priodol.

Gall oedi cyn ymgymryd ag Archwiliadau Meddygol Diogelu Plant roi plant mewn perygl o gael eu cam-drin ymhellach.

Rhaid i weithwyr proffesiynol ddilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019). [diogelu.cymru/]

Ni ystyriwyd cyfranogiad pediatregydd yn y broses o wneud penderfyniadau mewn trafodaethau strategaeth bob amser er bod hyn yn ofyniad gweithdrefnol.

Gwnaethpwyd penderfyniadau ynghylch dychwelyd y plant i gartref y teulu cyn y gynhadledd ac nid oedd yn amlasiantaethol.

## Rhannu gwybodaeth

Mae cymryd amser i dynnu pryderon hanesyddol at ei gilydd er mwyn cysylltu atgyfeiriadau blaenorol a digwyddiadau cronolegol yn hanfodol i nodi patrymau ymddygiad a darparu golwg panoramig (nid un microsgopig) o'r achos a'r teulu.

## Llais y plentyn

- Waeth beth fo'u hoedran, eu datblygiad neu eu hanabledd, dylid siarad â phlant gan ddefnyddio dulliau ac offer priodol.
- Rhaid defnyddio technegau Sicrhau'r Dystiolaeth Orau i wrando ar blant a'u clywed.
- Pan fydd gweithwyr proffesiynol o'r farn nad yw hyn yn digwydd, dylent herio cydweithwyr yn briodol fel rhan o'u harfer o fewn a thu allan i'w hasiantaethau.